



AWDIT A MEINI PRAWF GORMODEDD - SECTOR UWCHRADD

- Ymddeoliad / Diswyddo Gwirfoddol mewn sefyllfa o Ormodedd
- Meini Prawf Model
- Esiampl o Feini Prawf Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd

1 Sefyllfa o Ormodedd

1.1 Mae Trefn Gormodedd Awdurdod Gwynedd yn nodi bod sefyllfa o ormodedd yn bodoli yn ffurfiol yn dilyn cyhoeddi 'Llythyr 2' yn y drefn. Ar y pwynt hwn bydd ysgol wedi adnabod maint y gormodedd a maint y toriadau staffio bydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn addysgol ddilynol.

2 Awdit Cwricwlwm

2.1 Er mwyn adnabod maint y gormodedd ymhlith athrawon, dylid bod wedi cynnal Awdit Cwricwlwm sydd yn dangos nifer y gwersi sydd eu hangen ym mhob pwnc i gyflawni pob agwedd o'r cwricwlwm fydd yn cael ei gynnig yn y flwyddyn ddilynol ynghyd â'r nifer gwersi sydd ar gael gan y staff cyfredol i gyflenwi'r cwricwlwm honno.

2.2 Dylai'r cwricwlwm sydd yn cael ei gynnig fod yn cymryd i ystyriaeth pob ffactor perthnasol megis:

- Cynllun Datblygu'r Ysgol ac unrhyw Gynlluniau Gweithredu Cefnogol
- strwythurau rheolaethol presennol ac arfaethedig yr ysgol
- deilliannau unrhyw adroddiadau arolwg diweddar.

2.3 Bydd yr Awdit Cwricwlwm yn pennu gofynion cwricwlaidd a staffio ar gyfer y flwyddyn ddilynol gan adnabod y sgiliau arbenigol a rolau sydd eu hangen i gwrdd â'r gofynion rheiny.

3 Pŵl swyddi sydd o dan fygythiad oherwydd gormodedd

3.1 Bydd pŵl o swyddi o dan fygythiad oherwydd gormodedd yn cael ei llunio gan ddilyn y canllawiau canlynol:

- i) Bydd asesiad o'r nifer o gyfnodau dysgu sydd eu hangen i gyflawni gofynion cwricwlaidd, bugeiliol a rheolaethol yr ysgol fel sydd wedi'i adnabod gan y Corff Llywodraethol. Bydd y rhesymeg tu ôl i unrhyw newid o'r model cwricwlwm sydd yn gyfredol weithredol yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Cynllun Cwricwlwm a Bugeiliol.
- ii) Bydd y nifer o athrawon sydd ar gael i gyflenwi'r model hwn wedyn yn cael ei bennu trwy ystyried pa athrawon, sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd, sydd â'r



profiad/ cymwysterau/gallu i'w gyflenwi (h.y. cyflenwi'r gwersi neu'r cyfrifoldebau).

- 3.2 Wedi adnabod y nifer o athrawon (FTE) sydd ar gael i gyflenwi'r model, bydd angen gwneud cymhariaeth gyda'r nifer sydd eu hangen:
- i) Pan fo nifer yr athrawon sydd ar gael yn hafal neu'n llai na'r nifer o athrawon sydd ei angen i gyflenwi'r model cwricwlwm, yna ystyrir yr athrawon rheiny fel rhai sy'n angenrheidiol i allu cyflenwi'r cwricwlwm, ac fe'u tynnir o'r pŵl sydd o dan fygythiad o ddiswyddo gorfodol.
 - ii) Pan fo nifer yr athrawon sydd ar gael yn fwy na'r nifer sydd ei angen ar gyfer cyflenwi'r model cwricwlwm yna bydd pŵl o athrawon sydd o dan fygythiad diswyddo gorfodol. Gall hyn fod ar sail pwnc neu adran.

4 Dewis ymhlith y staff sydd yn y pŵl o athrawon sydd o dan fygythiad o ddiswyddo gorfodol

- 4.1 Bydd Meini Prawf Diswyddo yn cael eu datblygu gan y Corff Llywodraethol yn adlewyrchu anghenion staffio, cwricwlwm a rheoli'r ysgol unigol. (Gweler enghreifftiau Meini Prawf Diswyddo.)
- 4.2 Cymhwysir y Meini Prawf Diswyddo ar gyfer pob athro yn y pŵl o staff o dan fygythiad o ddiswyddo gorfodol. Bydd yr aelod staff gyda'r nifer lleiaf o bwyntiau yn cael ei adnabod i'w ystyried, yn y lle cyntaf, ar gyfer diswyddo gorfodol.
- 4.3 Wedi i unigolyn gael ei adnabod gan y drefn meini prawf, rhoddir ystyriaeth i oblygiadau'r dewis hwn ar y cwricwlwm.
- 4.4 Os yr adnabyddir aelod staff ar gyfer diswyddo trwy'r drefn meini prawf a bod dim oblygiadau ynghlwm wrth y diswyddo hwnnw mewn perthynas â chyflenwi rhan arall o'r cwricwlwm, yna bydd y Llywodraethwyr yn cynnig cwtogi oriau neu ddiswyddo'r aelod staff.
- 4.5 Os yr adnabyddir aelod staff ar gyfer diswyddo trwy'r drefn meini prawf a bod oblygiad y diswyddo hwnnw yn golygu na ellir cyflenwi rhan arall o'r cwricwlwm, yna bydd y Llywodraethwyr yn ystyried cyfyngu'r diswyddo i'r elfen ble mae gormodedd yn unig (h.y. cwtogi oriau cytundeb yr unigolyn i adlewyrchu'r gormodedd)
- 4.6 Parheir i ystyried y staff a adnabyddir trwy'r broses meini prawf hyd nes y ceir cyfanswm diswyddo sydd cyfwerth â chyfanswm y gormodedd sydd wedi'i hadnabod.

5 Staff yn gwirfoddoli ar gyfer ymddeoliad cynnar neu ddiswyddo er mwyn osgoi diswyddo gorfodol



- 5.1 Mae'n bosib y bydd rhai aelodau staff yn dymuno manteisio ar y telerau mwy ffafriol sydd ar gael ar gyfer ymddeoliad cynnar a/neu dâl diswyddo pan fo sefyllfa o ormodedd mewn ysgol.
- 5.2 Gwahoddir aelodau staff i fynegi diddordeb mewn ymddeoliad cynnar neu weithio'n rhan amser yn Llythyr 2 o Drefn Gormodedd, ac fe'u hanogir i gysylltu ag Uwch Swyddog Cyflogau Yr Awdurdod Addysg i gael arweiniad mewn perthynas â chyflogau, buddiannau a/neu bensiwn.
- 5.3 Petai aelod(au) o staff yn gwirfoddoli yn ffurfiol (trwy lythyr) i ymddeol a/neu gael eu diswyddo bydd angen rhoi'r un ystyriaeth i'r cais ag a wneir i staff a adnabyddir trwy'r drefn meini prawf:
- h.y.
- Petai derbyn ymddeoliad/diswyddiad gwirfoddol yr aelod staff yn golygu bod dim oblygiadau ynghlwm wrth y diswyddo hwnnw mewn perthynas â gallu'r ysgol i gyflenwi'r cwricwlwm gyda'r staff sydd yn weddill, yna gall y Llywodraethwyr ystyried derbyn cynnig yr aelod staff er mwyn osgoi diswyddo'n orfodol.
 - Petai dderbyn ymddeoliad/diswyddiad gwirfoddol yr aelod staff yn golygu na ellir cyflenwi rhan o'r cwricwlwm (heb benodi rhywun o'r tu allan i'r ysgol), ni ellir ystyried derbyn ymddeoliad/diswyddiad gwirfoddol yr aelod staff.
- 5.4 Mae'n bosib y bydd mwy nag un aelod o staff yn *ystyried* gwirfoddoli ar gyfer ymddeoliad cynnar a/neu ddiswyddo (mwy, o bosib, na sydd angen yn gyfan gwbl gan yr ysgol, neu fwy nag un aelod staff o'r un maes cwricwlaidd). Yn yr achosion hyn gellir gweithredu egwyddor 'y cyntaf i'r felin' o ran y staff sy'n gwirfoddoli yn ffurfiol, (h.y. os derbynnir llythyr gan aelod o staff yn gwirfoddoli yn ffurfiol i ymddeol a/neu gael eu diswyddo, a bod modd derbyn y cynnig hwnnw er mwyn osgoi diswyddo'n orfodol (yn unol â 5.3 uchod), gellir cadarnhau'r diswyddiad). Os bydd y diswyddiad gwirfoddol hwn yn ddigon o doriad i ateb gofynion y gormodedd sydd wedi'i adnabod yn yr ysgol, gellir dirwyn y broses gormodedd i ben.
- Petai mwy nag un aelod staff yn gwirfoddoli'n ffurfiol ar yr union yr un pryd, bydd angen gweithredu'r un egwyddorion o ran dewis o blith y sawl sydd wedi gwirfoddoli ac a wneir wrth ddewis unigolion ar gyfer diswyddo yn orfodol, h.y. llunio meini prawf fel y gellir mesur cyfraniad yr unigolion i'r ysgol. Yr aelod staff efo'r sgôr lleiaf fyddai'n gymwys i'w ystyried ar gyfer derbyn ei gynnig o wirfoddoli ar gyfer ymddeoliad cynnar neu ddiswyddo.
- 5.5 **'Bumping'** – weithiau bydd aelod o staff sydd ddim yn dysgu mewn un o feysydd gormodedd yr ysgol yn cynnig gwirfoddoli ar gyfer ymddeoliad cynnar neu ddiswyddo er mwyn i'r ysgol osgoi diswyddo yn orfodol.
- Os gellir cyflenwi'r agwedd(au) cwricwlwm a gynigir gan yr aelod o staff sy'n gwirfoddoli trwy ddefnyddio staff eraill yr ysgol **sydd mewn maes gormodedd**



(heb benodi rhywun o'r tu allan i'r ysgol), gall y Llywodraethwyr ystyried derbyn cynnig yr aelod staff sy'n gwirfoddoli er mwyn osgoi diswyddo'n orfodol. (Fodd bynnag, mae ystyried gweithredu fel hyn yn ddibynnol ar sgiliau'r staff sydd yn weddill yn yr ysgol a'u gallu i gyflenwi agweddau'r cwricwlwm a gyflenwir gan yr aelod staff sy'n gwirfoddoli. Safonau a chwricwlwm yr ysgol ddylai fod yr ystyriaeth uchaf yn hytrach na dymuniadau unigolion o staff.)

- Weithiau ceir deilydd CAD yn cynnig gwirfoddoli ar gyfer ymddeoliad cynnar neu ddiswyddo er mwyn osgoi diswyddo yn orfodol. Yn y sefyllfa hon, mae'r ystyriaethau cwricwlaidd fel yn y pwynt bwled uchod, ond yn ychwanegol, bydd angen i'r ysgol bodloni'i hun bod ganddi staff cymwys i ymgymryd â'r CAD heb orfod penodi o'r tu allan i'r ysgol.

SECTOR UWCHRADD

YSTYRIAETHAU AR GYFER MEINI PRAWF DETHOL A SGORIO (1)

Rhaid hysbysu o'r meini prawf ar gyfer dethol:

- i staff ac undebau llafur ymlaen llaw
- yn berthnasol i'r swyddi dan sylw
- sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion pob ysgol unigol
- amcan
- cysondeb o ran eu defnyddio
- gallu egluro pam y caed enwebiad penodol
- gellir ei ddefnyddio a'i wirio gan y Panel Diswyddo Staff a'i Banel Apêl cysylltiedig.

Mae angen i Gyrrff Llywodraethol bennu meini prawf sy'n berthnasol i anghenion yr ysgol i gynnal yr ysgol at y dyfodol. Gall y Corff Llywodraethol ddefnyddio cyfuniad o feini prawf dethol megis sgiliau, galluoedd a phrofiad, a gall hyn amrywio yn ôl y categori o staff a ddewisir.

Yn unol â chanllawiau ACAS, gall meini prawf enghreifftiol gynnwys:

Ystod a lefel sgiliau; cofnod absenoldeb; cofnod disgyblaeth; cymwysterau; perfformiad yn y swydd; prydlondeb; hyd gwasanaeth

Os yn ystyried cofnodion absenoldeb

- Byddwch yn ymwybodol o absenoldebau oherwydd mamolaeth neu anabledd. A yw'r cofnodion absenoldeb yn fanwl gywir? ;
- Byddwch yn ymwybodol o sut rydych yn cofnodi ac yn dangos y cyfraddau absenoldeb gan y gall ystadegau greu darlun anghyfartal; Pa mor bell yn ôl yr aiff y cofnodion?

Gellir defnyddio meini prawf o'r fath fel rhan o'r meini prawf craidd ond caiff ei argymhell ond ei defnyddio pan geir sgôr gyfartal. Dewis arall yw cynnal cyfweiliad cystadleuol er mwyn penderfynu pwy fydd yn cael ei ddiswyddo.



RÔL Y PANEL DISWYDDO A DISGYBLU STAFF (PDDS)

- Adnabod, ar ran y corff llywodraethol, aelod(au) o staff i'w diswyddo o'u cytundeb cyflogaeth ar sail diswyddo
- Bydd y Panel Diswyddo Staff (PDDS) yn penodi Cadeirydd fydd yn gyfrifol am arwyddo'r holl ohebiaeth briodol
- Mae hawl gan gynrychiolydd yr Awdurdod Addysg neu'r Esgobaeth fod yn bresennol, i roi cyngor, holl drafodion y PDDS os ydynt yn ystyried bod angen hynny
- Bydd y pennaeth yn asesu'r staff yn erbyn meini prawf cytunedig ac yn rhoi hwn i'r PDDS, mewn diwyg sydd yn gwarchod enwau staff cyn belled a bo modd, i gynorthwyo yn y broses dethol.
- Ni fydd yr PDDS yn gofyn barn y pennaeth nac unrhyw aelod o'r staff.
- Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael, bydd yr PDDS, yn cynnal y broses o ddethol trwy gwblhau taenlen meini prawf dethol – gweler enghraifft isod.
- Nid oes gan y pennaeth hawl i fod yn bresennol tra mae'r PDDS yn penderfynu
- Ar ôl cwblhau'r daenlen, dylai fod yn amlwg i'r PDDS mai'r aelod o'r staff sydd â'r sgôr isaf ar y grid fydd yn cael ei ddiswyddo
- Gofynnir i'r pennaeth ddatgelu enw'r aelod o'r staff fel y gall y Cadeirydd eu hysbysu'n ffurfiol.

DEFNYDDIO'R MEINI PRAWF DETHOL AT DDIBENION ENWI

Ar ôl sefydlu ac ymgynghori ar feini prawf gwrthrychol ar gyfer dethol, y cam nesaf yw sicrhau y caiff meini prawf o'r fath eu defnyddio'n gywir ac yn deg, gan ddefnyddio data a'r wybodaeth ddiweddaraf a manwl o lefel sgiliau'r unigolyn. Bydd y PDDS yn defnyddio'r meini prawf yn dilyn yr asesiad cychwynnol gan y pennaeth mae'n rhaid iddo sicrhau bod tyst i unrhyw wybodaeth a ddefnyddir wrth gwblhau'r meini prawf dethol.

Enghreifftiau'n unig yw'r meini prawf canlynol - rhaid eu diwygio'n unol â hynny mewn ymateb i anghenion ysgol unigol.

ENGHREIFFTIAU O FEINI PRAWF DRAFFT AR GYFER YSTOD A LEFEL SGILIAU	SGORIO
<p>Cyfrifoldeb am gyd-gordio addysgu a dysgu pwnc craidd e.e. mathemateg. <i>Rhaid i'r Panel Diswyddo Staff egluro prun a yw'r cyfraniad hwn yn rhan o gyfrifoldebau proffesiynol athro neu a yw'n rhan o ddiffiniad y CAD</i></p>	<p>3 pwynt = cyfrifoldeb presennol 2 bwynt = diweddar ond nid cyfrifoldeb cyfredol e.e. o fewn y 2 flynedd ddiwethaf 1 pwynt = tystiolaeth ond nid yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfraniadau tuag at ddatblygu addysgu a dysgu maes pwnc craidd. <i>Beth a olygir gan 'gyfraniadau'? Sut y cant eu mesur?</i></p>	<p>3 pwynt = cyfraniad presennol 2 bwynt = cyfraniad diweddar ond nid cyfredol 1 pwynt = tystiolaeth ond nid yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfrifoldeb am gyd-gordio mentrau blaenoriaeth o dan y Cynllun Datblygu Ysgol <i>Mae'n ofynnol i'r Panel Diswyddo Staff egluro a yw'r cyfraniad hwn yn rhan o gyfrifoldebau proffesiynol athro neu a yw'n rhan o ddiffiniad y CAD?</i></p>	<p>3 pwynt = cyfrifoldeb cyfredol 2 bwynt = cyfrifoldeb yn ddiweddar ond nid cyfredol e.e. o fewn y 2 flynedd ddiwethaf 1 pwynt = tystiolaeth ond nid yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfraniadau tuag at ddatblygiad mentrau blaenoriaeth o dan y Cynllun Datblygu Ysgol <i>Beth a olygir gan 'gyfraniadau'? Sut y cant eu mesur?</i></p>	<p>3 pwynt = cyfraniad cyfredol 2 bwynt = cyfraniad diweddar ond nid cyfredol 1 pwynt = tystiolaeth ond nid yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfrifoldeb am gyd-gordio addysgu a dysgu x (pwnc nad yw'n bwnc craidd) – o fewn y cwricwlwm. <i>Mae'n ofynnol i'r Panel Diswyddo Staff egluro a yw'r cyfraniad hwn yn rhan o gyfrifoldebau proffesiynol athro neu a yw'n rhan o ddiffiniad y CAD?</i></p>	<p>3 pwynt = cyfrifoldeb cyfredol 2 bwynt = cyfrifoldeb diweddar ond nid cyfredol e.e. o fewn y 2 flynedd ddiwethaf 1 pwynt = tystiolaeth ond nid yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfraniadau tuag at addysgu a dysgu x (pwnc nad yw'n bwnc craidd) o fewn y cwricwlwm <i>Beth a olygir gan 'gyfraniadau'. Sut y cant eu mesur?</i></p>	<p>3 pwynt = cyfraniad cyfredol 2 bwynt = cyfraniad diweddar ond nid yn gyfredol 1 pwynt = tystiolaeth ond nid yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfrifoldeb Bugeiliol cyffredinol megis gwaith tiwtorial a mentora</p>	<p>3 pwynt = cyfrifoldeb cyfredol 2 bwynt = cyfrifoldeb diweddar ond nid yn gyfredol e.e. o fewn y 2 flynedd ddiwethaf 1 pwynt = tystiolaeth ond dim yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Cyfraniadau tuag at gefnogaeth fugeiliol megis gwaith tiwtorial a mentora</p>	<p>3 pwynt = cyfraniad cyfredol 2 bwynt = cyfraniad diweddar ond nid yn gyfredol 1 pwynt = tystiolaeth ond dim yn ddiweddar 0 pwynt = dim tystiolaeth</p>
<p>Arddangos datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol ac/neu gymwysterau ychwanegol a enillwyd sydd wedi effeithio ar safonau addysgu a dysgu dros y 3 blynedd ddiwethaf</p>	<p>3 pwynt = tystiolaeth ragorol 2 bwynt = tystiolaeth dda 1 pwynt = peth tystiolaeth 0 pwynt = dim tystiolaeth/dros 3 blynedd</p>
<p>Hyd gwasanaeth yn yr ysgol <i>Gellir defnyddio hwn hefyd pan fo pob dull arall ar gyfer gwahaniaethu rhwng dau aelod o'r staff sydd wedi cael yr un sgôr wedi bod yn aflwyddiannus</i></p>	<p>1 pwynt = hyd at ddwy flynedd o wasanaeth 2 bwynt = dwy flynedd ond dan bump 3 pwynt = pum mlynedd ond dan ddeg 4 pwynt = deg mlynedd a trosodd</p>



DEFNYDDIO MEINI PRAWF DETHOL I GREU SGÔR PWYNTIAU

Dylid rhestru meini prawf yn nhrefn blaenoriaeth.

Gall yr SDRP sefydlu matrices a defnyddio ei system **sgorio/pwysiad**:

e.e. gellir yna roi pwysiad i bob maen prawf gyda'r maen prawf a gaiff y bennaf flaenoriaeth yn cael ffactor o 5, gyda'r maen prawf isaf yn cael ei luosi gyda ffactor o 1.

ENGHRAIFFT O FATRICS A THAFLEN SGORIO

Enw'r Aelod o'r Panel:

Rhif Aseiad Athro:

<u>Meini Prawf</u>	<u>Sgôr allan o 3</u>	<u>Pwysiad</u> <u>(uchafswm 5)</u>	<u>Cyfanswm</u>
<u>a</u>			
<u>b</u>			
<u>c</u>			
<u>d</u>			
<u>Cyfanswm</u>			



Esiampl o feini prawf diswyddo YSGOL UWCHRADD yng Ngwynedd

MEINI PRAWF DISWYDDO (Cam B) / CRITERIA FOR REDUNDANCY (Step B)

Cyfrifoldebau	Responsibilities	Sgôr/Score
Pennaeth Pwnc Craidd	Head of Core Subject	4
Pennaeth Pwnc Anghraidd	Head of Non-core Subject	3
Tiwtor Blwyddyn	Year Tutor	2
Cydlynwyr Gyrfau, SENCO, WBQ, ABaCh	Careers, SENCO, WBQ, PHSE Co-ordinators	2
Mentor Cyffredinol, Anogwr Dysgu, Cydlynnydd Iaith, Cydlynnydd Profiad Gwaith (a PG Estynedig)	General Mentor, Learning Coach, Language Co-ordinator, Work Experience (and Extended W E) co-ordinator.	1

DYSGU ac ADDYSGU

TEACHING and LEARNING

Prif bwnc yn bwnc craidd.	Main subject is core subject (not applicable to HoD).	2
Profiad mewn neu yn dangos gallu i gynnig cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.	Experience of, or has expressed or shown ability to provide a course in Welsh and English.	2
Yn abl i gynnig tystiolaeth o wella, yn weithredol, sgiliau personol yng Nghymraeg, gyda'r bwriad o gynnig cwrs drwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg.	Able to provide evidence of actively improving personal skills in Welsh with the intent to provide a course in Welsh and English.	1
Dysgu un pwnc anghraidd yn CA4 (sydd yn arwain at achrediad).	Teaching a non-core KS4 subject (leading to an accreditation) (not applicable to HoD).	1



Dysgu un neu fwy o bynciau ychwanegol yn CA4 (sydd yn arwain at achrediad).

Teaching one or more additional subjects at KS4 (leading to an accreditation).

1 yr un/each

Darparu a marcio Sgil Hanfodol neu agwedd arall yn GA3/CA4 - rhoi mynediad i achrediad Lefel 2/Bagloriaeth Gymraeg.

Delivering and marking an Essential Skill or other element in KS3/KS4 providing access to Level 2 accreditation/WBQ.

1

Darparu un neu fwy o bynciau ychwanegol yn CA3 ac ABaCh (CA3 a 4)

Delivering one or more additional subjects at KS3 and PHSE (KS3 and 4).

0.5 yr un/each

Darparu (ond nid yn marcio) Sgil Hanfodol neu agwedd arall yn GA3/CA4 - rhoi mynediad i achrediad Lefel 2/Bagloriaeth Gymraeg.

Delivering (but not marking) an Essential Skill or other element in KS3/KS4 providing access to Level 2 accreditation/WBQ.

0.5 yr un/each